Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd: **Darlithydd Chwaraeon a Gwyddorau Ymarfer**

Adran: **Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd**

Lleoliad: **Campws Cyncoed**

Gradd: **7 AB**

Cyflog: **£40,322- £45,361 y flwyddyn**

Oriau: **37 awr yr wythnos**

Deiliadaeth: **Cyfnod penodol tan 31 Awst 2022**

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn ddangosol, nid yn rhagnodol, a bydd cydbwysedd y dyletswyddau yn unol â'r contract cyflogaeth.

Crynodeb o'r Rôl:

Mae hon yn swydd allweddol a fydd yn cyfrannu at uchelgeisiau Cynllun Strategol y Brifysgol 2017/18 – 2022/23.

Bydd y swydd hon o ddiddordeb i unigolyn cymwysedig iawn a chryf ei g/chymhelliad sy'n awyddus i weithio mewn Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd nodedig. Bydd angen i ymgeiswyr feddu ar wybodaeth arbenigol a phrofiad o Chwaraeon a Gwyddor Ymarfer gyda gwybodaeth benodol i bwnc naill ai mewn seicoleg, biomecaneg neu ffisioleg, ond gyda gwybodaeth rhyngddisgyblaethol werthfawr. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gwneud cyfraniad mawr i gyflenwi modiwlau chwaraeon a gwyddor ymarfer ar raglenni is-raddedig ac ôl-raddedig. Disgwylir iddyn nhw gyfrannu at fodiwlau penodol i'r pwnc ym maes chwaraeon a gwyddor ymarfer (seicoleg a/neu biomecaneg a/neu ffisioleg), yn ogystal â modiwlau rhyngddisgyblaethol mewn chwaraeon a gwyddor ymarfer a modiwlau ar draws yr ysgol mewn dulliau ymchwil a datblygiad proffesiynol, yn ogystal â bod yn gallu goruchwylio prosiectau traethawd hir is-raddedigion a graddedigion. Byddai'r gallu i addysgu ar draws mwy nag un pwnc penodol yn y ddisgyblaeth ar lefel 4 yn ddymunol iawn. Dylai fod gan ymgeiswyr y gallu i gynllunio a chynnig darlithoedd, sesiynau ymarferol, seminarau gan ddefnyddio

dulliau addysgu blaengar sy'n cynnwys dulliau wyneb-yn-wyneb ac addysgu digidol o hirbell. Bydd disgwyl hefyd i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â rolau bugeiliol megis tiwtora personol ac i ymglymu â rheolaeth lwyddiannus o raglen SES israddedig. Byddwch yn ymuno â thîm gyda hanes cadarn o ymchwil a blaengaredd a bydd angen i chi arddangos y gallu i gyfrannu at yr agenda strategol hon.

Prif Gyfrifoldebau a Dyletswyddau Allweddol:

Addysgu a chymorth dysgu

- Llunio deunydd addysgu a chyflenwi naill ai ar draws ystod o fodiwlau neu o fewn maes pwnc.
- Defnyddio dulliau priodol ar gyfer addysgu, cymorth dysgu ac asesu, wyneb yn wyneb ac mewn rhith amgylcheddau dysgu
- Goruchwylio prosiectau myfyrwyr a/neu e.e. teithiau maes a, lle bo'n briodol, lleoliadau.
- Nodi meysydd lle mae angen diwygio neu wella'r ddarpariaeth gyfredol.
- Cyfrannu at gynllunio, llunio a datblygu amcanion a deunyddiau.
- Gosod, marcio ac asesu gwaith ac arholiadau a darparu adborth i fyfyrwyr
- Gellid disgwyl i'r darlithydd weithredu fel arweinydd modiwl

Ymchwil ac ysgolheictod

- Cynorthwyo i ddatblygu amcanion ymchwil, prosiectau a chynigion.
- Cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil unigol ac ar y cyd, a goruchwylio lle bo'n briodol
- Cynorthwyo i ganfod ffynonellau cyllid a chyfrannu at y broses o sicrhau cyllid.
- Defnyddio gwybodaeth a gafwyd o waith ysgolheigaidd i addysgu, ymchwil a gweithgareddau allanol priodol.
- Ysgrifennu neu gyfrannu at gyhoeddiadau a lledaenu canfyddiadau ymchwil eang ei effaith
- Gwneud cyflwyniadau mewn cynadleddau neu arddangos gwaith mewn digwyddiadau priodol eraill.

Cyfathrebu

- Cyfleu syniadau cysyniadol a chymhleth yn rheolaidd.

Cysylltu a rhwydweithio

- Cymryd rhan a helpu i ddatblygu rhwydweithiau mewnol ac allanol er budd Prifysgol Metropolitan Caerdydd ym meysydd addysgu, ymchwil a blaengaredd.

Rheoli pobl

- Mentora cydweithwyr sydd â llai o brofiad a chynghori ar ddatblygiad personol
- A dibynnu ar y maes gwaith, gellid disgwyl i'r darlithydd oruchwylio gwaith eraill.

Gwaith tîm

- Gweithredu fel aelod cyfrifol o dîm, yn arwain lle cytunwyd, a datblygu perthynas waith gynhyrchiol gydag aelodau eraill o'r staff.
- Cydweithredu gyda chydweithwyr i ganfod ac ymateb i anghenion myfyrwyr

Gofal bugeiliol

- Gellid disgwyl i'r darlithydd weithredu fel tiwtor personol
- Bod yn gyfrifol am ofal bugeiliol myfyrwyr o fewn maes penodol
- Delio gyda phroblemau safonol a helpu cydweithwyr ddatrys eu pryderon am gynnydd ym maes ymchwil.

Blaengaredd, datrys problemau a gwneud penderfyniadau

- Asesu, dehongli a gwerthuso canlyniadau ymchwil.
- Nodi'r angen i ddatblygu cynnwys neu strwythur modiwlau gyda chydweithwyr a gwneud cynigion ar sut y dylid cyflawni hyn.
- Cyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar raglenni cysylltiol eraill.
- Datblygu syniadau yn hyrwyddo'r meysydd pwnc a/neu feysydd ymchwil
  e.e. Datblygu syniadau a dod o hyd i ddulliau o ledaenu a defnyddio canlyniadau ymchwil ac ysgolheictod.
  e.e. Cyfrifoldeb dros gynllunio a chyflenwi ei m/fodiwlau a dulliau asesu ei hun
  e.e. Cydweithredu gyda chydweithwyr ar weithredu gweithdrefnau asesu
  e.e. Cynghori eraill ar faterion strategol megis recriwtio myfyrwyr a marchnata
  e.e. Cyfrannu at achrediad cyrsiau ac at brosesau rheoli ansawdd.

Cynllunio a rheoli adnoddau

- Fel arweinydd modiwl neu diwtor, cydgysylltu ag eraill (megis staff cymorth neu gydweithwyr academaidd) er mwyn sicrhau bod anghenion a disgwyliadau myfyrwyr yn cael eu diwallu.
- Rheoli prosiectau perthnasol i faes waith y darlithydd
- Cyfrannu at ddatblygu syniadau ar gyfer creu incwm

Galwadau synhwyraidd, corfforol ac emosiynol.

- Cydbwyso pwysau addysgu a galwadau gweinyddol a dedleins sy'n gwrthdaro â'i gilydd.

Amgylchedd gwaith

- Yng nghyd-destun polisi Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd, yn dibynnu ar y maes gwaith a lefel yr hyfforddiant, efallai bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus gynnal asesiad risg a bod yn gyfrifol am iechyd a diogelwch eraill.

Arbenigedd

- Meddu ar ddealltwriaeth ddigon trylwyr o wybodaeth arbenigol yn y ddisgyblaeth i ddatblygu rhaglenni addysgu a/neu ymchwil a darparu cymorth dysgu.
- Defnyddio amrediad o dechnegau cyflenwi.

Hysbysiad Safonol

Darperir y canllawiau hyn i'ch cynorthwyo i weithredu'ch contract. Mae'r brifysgol yn sefydliad deinamig; felly efallai bydd angen i bethau newid o dro i dro. Bydd unrhyw newid yn digwydd mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd. Nid rhestr gynhwysfawr o dasgau a berfformir yw Crynodeb Dyletswyddau a

Chyfrifoldebau. Mae tasgau technegol perthnasol eraill yn debygol o gael eu perfformio yn ôl cyfarwyddyd y rheolwr llinell.

Sylweddolir y bydd gan unigolion sgiliau a gwybodaeth arbenigol perthnasol i'r swydd y penodwyd nhw iddi. Yn ogystal â hyn, mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn disgwyl y bydd yr holl staff yn cyfrannu at weledigaeth ac ethos y brifysgol ac yn ymddwyn yn broffesiynol, yn gwrtais a ffocysu ar y myfyrwyr bob amser. Dylai pob aelod o'r staff roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau yn ôl polisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd ar Gydraddoldeb, Cyllid, Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Adnoddau Dynol a Iechyd a Diogelwch

MANYLEB PERSON

Swydd: **Darlithydd Chwaraeon a Gwyddor Ymarfer**

Uned/Ysgol: **Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd**

*Allwedd

Ff - Ffurflen gais
C - Cyfweliad
P - Prawf

FFACTORAU	MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL	ASESWYD DRWY		
		Ff*	C*	P*
Addysg a Chymwysterau (Hanfodol)	Gradd anrhydedd dda mewn chwaraeon a gwyddor ymarfer (neu bwnc tebyg perthnasol)	X		
	Doethuriaeth mewn maes perthnasol neu'r gallu I ennill o fewn cyfnod o 6 mis.	X		
	Cymhwyster doethuriaeth a enillwyd Y gallu i gyflawni Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol Academi Addysg Uwch, o fewn cyfnod o 3 blynedd.	X		
Addysg a Chymwysterau (Dymunol)	Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol Academi Addysg Uwch.	X		
	Achrediad gyda chorff proffesiynol perthnasol, fel Cymdeithas Seicolegol Prydain neu Gymdeithas Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Prydain	X		
	Aelodaeth o Gorff Proffesiynol	X		
Gwybodaeth (Hanfodol)	Gwybodaeth dda, perthnasol i'r pwnc a maes proffesiynol.	X	X	X
	Tystiolaeth o ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP/CPD)	X		
	Dealltwriaeth drylwyr o addysgeg	X	X	
	Dealltwriaeth drylwyr o ymchwil/blaengaredd a gweithgaredd ysgolheigaidd.	X	X	X

Gwybodaeth (Dymunol)				
Sgiliau a Galluoedd Perthnasol i'r Rôl (Hanfodol)	Y gallu i ddatblygu rhaglenni dysgu a/neu ymchwil a darparu cymorth dysgu.	X	X	X
	Y gallu i lunio deunydd addysgu a dysgu.	X	X	
	Y gallu i ddefnyddio dulliau asesu priodol.	X	X	
	Y gallu i gynorthwyo i ddatblygu amcanion ymchwil a blaengaredd, prosiectau neu gynigion		X	
	Y gallu i ddefnyddio dulliau priodol ar gyfer lledaenu canfyddiadau ymchwil.	X		
	Y gallu i gyfrannu at gyflawni Cynllun Datblygu'r Ysgol ac at ddatblygu gweithgareddau eraill yr ysgol.		X	X
	Y gallu i ymgymryd â dyletswyddau gweinyddol mewn dull cywir ac yn amserol	X	X	
	Y gallu i gynllunio beichiau gwaith a phrosiectau a rheoli adnoddau yn effeithiol.	X	X	
	Y gallu i nodi meysydd ar gyfer gwella ac i ddefnyddio blaengaredd a sgiliau datrys problemau i wella perfformiad.		X	X
	Y gallu i ysgwyddo cyfrifoldeb dros nifer o feysydd allweddol megis tiwtor modiwl, goruchwylio ymchwil israddedigion.		X	
	Y gallu i gyfleu a lledaenu syniadau cymhleth a chysyniadol drwy amryw o ffyrdd – cyflwyniadau mewn cynadleddau, adroddiadau ar ganfyddiadau, cyhoeddiadau, adborth ayb.	X	X	X
	Y gallu i ddatblygu perthynas waith gynhyrchiol fel rhan o dîm proffesiynol		X	
	Y gallu i gydweithio ar brosiectau ymchwil drwy ddatblygu partneriaethau priodol	X	X	
	Y gallu i lunio deunydd e-ddysgu.	X	X	
Sgiliau a Galluoedd Perthnasol i'r Rôl (Dymunol)				

Profiad â Thâl/Di Dâl (Hanfodol)	Profiad o addysgu/ymchwil neu gyfwerth. Profiad o ddenu neu greu cyllid/incwm drwy amrywiaeth o ffynonellau. Profiad o weithio gydag eraill yn goruchwylio/arwain/cynorthwyo /mentora.	X X	X X X	
Profiad â Thâl/Di Dâl (Dymunol))	Profiad o addysgu ac ymchwil ym maes Addysg Uwch.	X		
Gofynion Eraill (Hanfodol)	Gallu i arddangos ymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, Iechyd a Diogelwch, Safonau Ansawdd	X		
Gofynion eraill (Dymunol)	Y gallu i siarad Cymraeg	X		